wsa: newyddion

Gwefannau Cyrff Llywodraethol Cenedlaethol ar gael am £1k

Mae gan Gyrff Llywodraethol Cenedlaethol (CLIC) erbyn hyn gyfle i gael neu ailddatblygu eu gwefan eu hunain am ychydig dros £1,000, diolch i dempled sydd wedi'i gynhyrchu ar gyfer Cymdeithas Chwaraeon Cymru. Yn ogystal â gwefan, mae'r templed yn cynnwys cronfa ddata gynaledig a datrysiad e-fasnach sy'n galluogi cyrff llywodraethol i gofnodi'r holl wybodaeth angenrheidiol a chaniatáu i aelodau ymuno neu adnewyddu eu haelodaeth ar-lein.

Mae gwefannau, e-bostio a chronfeydd data'n dod yn arfau hanfodol ar gyfer cyfathrebu gyda budd-ddeiliaid allweddol a lleihau'r baich gweinyddol ar gyfer sefydliadau. Mae nifer o gyrff llywodraethol yn sylweddoli y byddent yn elwa o gael technoleg well ond mae amser ac arian yn aml yn eu hatal rhag adnewyddu eu gwefannau neu ychwanegu technoleg newydd megis eu cronfeydd data eu hunain a systemau talu ar-lein.

Mae cronfeydd data 'cynaledig' (rhai y gellir eu cyrchu trwy gyfrwng y rhyngrwyd) a datrysiadau e-fasnach sydd wedi'u cysylltu â gwefan yn galluogi cyrff llywodraethol i ddarparu'r broses gofrestru a thalu am aelodaeth neu ddigwyddiad/twrnamaint ar-lein, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ymuno/cystadlu ac yn haws i GLIC rheoli'r gwaith gweinyddol. Gall ysgrifenyddion a phersonél awdurdodedig eraill gyrchu cronfa ddata gynaledig hefyd er mwyn diweddaru manylion aelodaeth neu gyfleuster, rhoi canlyniadau cystadlaethau neu fanylion rhai sy'n cymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni cyfranogiad/datblygiad.

Mae cofrestru ar-lein ar gyfer eitemau megis e-gylchlythyrau hefyd yn hwyluso'r broses o gasglu gwybodaeth ynghylch bobl sydd â diddordeb yn eich chwaraeon chi ac yn ei gwneud hi'n haws ac yn rhatach i gyfathrebu gyda'r cynulleidfaoedd hynny trwy gyfrwng cyfeiriadau e-bost.

Byddai datblygu gwefan newydd gyda datrysiad e-fasnach a chronfa ddata gynaledig fel arfer yn costio rhwng £20,000 - £30,000. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru mewn sefyllfa i gynnig datrysiad i bob Corff Llywodraethol Cenedlaethol yng Nghymru am £2,500 yn unig (cost gwefan yn unig yw £1,050). Mae'r templed, sydd hefyd wedi'i ariannu gan Gyngor Chwaraeon Cymru'n galluogi:

- Pob sefydliad i ddatblygu a theilwra gwefan sy'n siwtio ei anghenion ei hun am gostau isel iawn.
- Pob sefydliad i gael cronfa ddata gynaledig y gellir ei chysylltu â gwefan bresennol neu wefan newydd er mwyn caniatáu cofrestru ar-lein a galluogi defnyddwyr awdurdodedig, h.y. ysgrifenyddion clybiau, i ddiweddaru gwybodaeth oddi ar unrhyw gyfrifiadur sy'n caniatáu cyrchu'r rhyngrwyd. Bydd cyswllt hefyd â gofynion newydd yr UKCC.
- Pob sefydliad i ddarparu datrysiad e-fasnach ar wefan bresennol neu wefan newydd ar gyfer taliadau ar-lein.

Mae Ffederasiwn Pysgota Cymru, Undeb Canŵio Cymru ac Undeb Golff Cymru'n datblygu gwefannau ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r templed.

A fyddech cystal â chysylltu â Chymdeithas Chwaraeon Cymru ar 029 2046 9861 os oes gennych ddiddordeb mewn gwybod mwy am y prosiect.

Paratoi ar gyfer y gwaharddiad ar ysmygu

Mae'r gyfraith newydd ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig yng Nghymru ar fin dod i rym ar 2il Ebrill 2007. Bwriad y gyfraith ysmygu yw amddiffyn gweithwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol rhag effeithiau niweidiol mwg ail-law.

Mae'r gyfraith yn creu tri throsedd penodol:

- Methu ag arddangos arwyddion 'dim ysmygu' mewn adeiladau sy'n atebol i'r gyfraith
- Ysmygu mewn man lle na chaniateir ysmygu
- Methu ag atal pobl rhag ysmygu mewn man lle na chaniateir ysmygu

Ychydig iawn o eithriadau a fwriedir i'r gwaharddiad ar ysmygu. Bydd y gyfraith newydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys bwytai, tafarndai, barrau, siopau, sinemâu, canolfannau siopa, canolfannau hamdden, mannau gwaith caeedig eraill a chludiant cyhoeddus.

Ceir manylion pellach ar **www.smokingbanwales.co.uk**

UKCC
Pêl-rwyd a Thenis Bwrdd yw'r chwaraeon diweddaraf i dderbyn cymeradwyaeth UKCC ...*gweler tudalen 2*

Gwobrau Blynyddol Arwyr Di-glod Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Gwahodd enwebiadau ar gyfer Gwobr Flynyddol Arwr Di-glod...*gweler tudalen 2*

Wythnos Addysg Oedolion
Wythnos Addysg Oedolion, dathliad addysg oedolion mwyaf y DU...*gweler tudalen 4*

Proffil Staff CLIC
Debbie Wharton a Sue Holvey'n son am y profiad o redeg CLIC...*gweler tudalennau 5 a 6*

wsa:
serving welsh sport
gwasanaethu chwaraeon cymru

Gwobrau Blynyddol Arwyr Di-glod Cymdeithas Chwaraeon Cymru

Mae Bob Turner, Cadeirydd Cymdeithas Chwaraeon Cymru'n gwahodd enwebiadau ar gyfer Gwobr Flynyddol Arwr Di-glod y Gymdeithas, i'w chyflwyno yng nghinio Oriel Enwogion Chwaraeon Cymru yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar nos Wener, 22 Mehefin 2007.

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru'n ymdrechu i hyrwyddo'r gwaith ardderchog a wneir yn ddyddiol gan filoedd o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser yn hael er mwyn datblygu chwaraeon ar draws y wlad. Mae nifer o'r unigolion sy'n cymryd rhan wedi cyflwyno oes o wasanaeth i'w dewis chwaraeon, a thu hwnt i'w clybiau lleol, gall eu hymdrechion clodwiw fynd yn ddisylw i raddau helaeth. Mae Gwobr Arwr Di-glod y Gymdeithas yn gyfle i wobrwyo ymdrechion un o'r gwirfoddolwyr hyn fel rhan o un o achlysuron mwyaf disglair y byd chwaraeon yng Nghymru

Mae'r enwebiadau yn agored i holl gyrff llywodraethol cenedlaethol chwaraeon a hamdden corfforol a'u clybiau a'u cymdeithasau cyswllt. Mae ffurflenni cais ar gael gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru ar 029 2064 9861 neu ar **www.welshsports.org.uk** a chroesewir enwebiadau gan sefydliadau chwaraeon bona fide yng Nghymru.

Adnoddau Recriwtio a Datblygu Gweithwyr

Mae gan 'extranet' Cymdeithas Chwaraeon Cymru, y gall yr holl Gyrff Llywodraethol Cenedlaethol ei gyrchu trwy gyfrwng adran Aelodau gwefan Cymdeithas Chwaraeon Cymru (**http://www.welshsports.org.uk/Login.asp**) gyswllt uniongyrchol erbyn hyn â dogfennau ar wefan ACAS (y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu). Mae'n darparu cyngor a thempledi ar recriwtio a chyflogi pobl, yn ogystal ag erthyglau ar sut i lenwi ffurflenni asesu gweithwyr, ffurflenni disgyblu a chwynion, ffurflenni recriwtio a sefydlu, data personél, ffurflenni cadw cofnod, ffurflenni cais a ffurflenni gwerthuso swydd. Mae hyn yn cyd-fynd â thempledi cyflogwyr a dogfennau polisi a gynhyrchir ar gyfer CLIC gan gyfreithwyr Geldards LLP.

13 o Chwaraeon bellach wedi derbyn Cymeradwyaeth UKCC

Pêl-rwyd a Thenis Bwrdd yw'r chwaraeon diweddaraf i dderbyn cymeradwyaeth yr UKCC (UK Coaching Certificate) ar gyfer eu cymwysterau addysg hyfforddwyr, gan olygu bod cymaint ag 13 o chwaraeon wedi derbyn cymeradwyaeth UKCC ar wahanol lefelau.

Mae'r chwaraeon hyn yn ymuno â Badminton, Criced, Seiclo, Hoci, Rygbi Cynghrair, Sboncen, Tenis a Triathlon gyda golwg ar fedru cyflwyno cymwysterau hyfforddi sy'n cyd-fynd â safon gyffredinol gydnabyddedig y llywodraeth ar gyfer addysg hyfforddwyr, sef yr UKCC. Am fwy o wybodaeth ar yr UKCC ewch i **www.ukcoachingcertificate.org** Gellir dod o hyd i'r rhestr ddiweddaraf o weithdai cyrsiau gwella hyfforddiant sy'n cael eu cynnal ar draws Cymru ar http://www.coachingwales.com/data/documentLibrary/74.doc .

Derbyniodd y chwaraeon llwyddiannus diweddaraf y newyddion yn dilyn cyfarfod Grŵp Safonau Hyfforddi ym mis Medi. Dywedodd Pat Duffy, Prif Weithredwr Sportscoach UK, 'Mae hyn yn gamp aruthrol i'r holl chwaraeon sydd wedi llwyddo i dderbyn cymeradwyaeth a dylid eu llongyfarch am eu gwaith caled yn cyrraedd y nod. Mae'r UKCC yn rhoi strwythur proffesiynol cydnabyddedig i hyfforddiant ac mae'n helpu i godi proffil rôl yr hyfforddwr chwaraeon. Bydd hyn yn chwarae rhan allweddol yn llwyddiant Cynllun Gweithredu Hyfforddiant y DU sydd am sicrhau mai system hyfforddi'r DU fydd yr orau yn y byd erbyn 2016.'

Mae Sportscoach UK wedi arwain datblygiad yr UKCC ac wedi gweithio i gefnogi 31 o chwaraeon yn y lle cyntaf.

Mae Cyrff Llywodraethol Cenedlaethol wedi cydweithio'n agos gyda sefydliadau cyfatebol yn y Gwledydd Cartref, gan rannu gwybodaeth ac arbenigedd er mwyn creu'r addysg hyfforddwyr gorau posib ar gyfer eu chwaraeon.

Ymgynghoriad Sector Gwirfoddol LICC

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Strategol drafft ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol, sydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad. Mae'n 'cyflwyno gweledigaeth ar gyfer gwaith y Llywodraeth gyda'r sector yn y dyfodol, ac yn dangos sut y bydd yn arwain amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y sector er mwyn helpu i daclo rhai o'r problemau dwysaf sy'n wynebu Cymru, ac er mwyn gwella ansawdd bywyd y bobl yn gyffredinol.' Mae'r weledigaeth strategol hon hefyd yn dweud y bydd 'Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi ac yn cydweithio gyda'r trydydd sector er mwyn macsimeiddio ei botensial i gydweithio gyda, i gynnwys, ac i rymuso'r cyhoedd fel dinasyddion gweithredol.' Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 4ydd Ebrill 2007. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar:

http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/consultation/volschemeactionplan/?lang=en

Cronfa Risg Gymdeithasol

Mae'r Gronfa Risg Gymdeithasol sy'n cael ei rhedeg gan y WCVA yn dod i ben ar 31 Mawrth ac mae gan sefydliadau tua wyth wythnos i gael eu ceisiadau'n barod ar gyfer rownd olaf y Gronfa.

Mae'r Gronfa, sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Ewropeaidd wedi dyrannu dros £3.7m hyd yn hyn mewn ardaloedd Amcan 1 ac £1.3m mewn ardaloedd Amcan 3.

Mae wedi cyfrannu tuag at adferiad cymunedau trwy gynorthwyo pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder, trwy ehangu cyfranogiad mewn mentrau dysgu gydol oes a darparu llwybrau tuag at gyflogaeth ar gyfer grwpiau dan anfantais.

Mae grwpiau cymunedol a gwirfoddol bach, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chwaraeon sydd ag incwm o lai na £150,000 yn gymwys i wneud cais am grantiau o hyd at £10,000.

Am fwy o wybodaeth a fyddech cystal â ffonio llinell gymorth y WCVA ar 0800 2888 329 neu e-bostio **help@wcva.org.uk**.

Hyfforddiant Cymdeithas Chwaraeon Cymru'n Llwyddiant Ysgubol

Roedd hyfforddiant Hydref-Gaeaf 2006 Cymdeithas Chwaraeon Cymru'n llwyddiant mawr. Dilynodd tua 40 o aelodau staff o wahanol gyrff llywodraethol cenedlaethol gyrsiau ar TG, sgiliau cyflwyno, gweinyddu effeithiol a hyfforddiant staff.

Mae gan Cymdeithas Chwaraeon Cymru gyllideb bellach i dalu am hyfforddiant Cyrff Llywodraethol Cenedlaethol yn 2007 ac mae'n gwahodd CLIC i gysylltu â'r Gymdeithas ar 029 2064 9861 i roi gwybod pa fath o hyfforddiant sydd ei angen.

Mae'r cyrsiau sydd ar gael ar hyn o bryd trwy Siambr a Menter Casnewydd a Gwent, sydd wedi'u hariannu'n bennaf gan y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys:

01-Maw.-07	Gofal Cwsmeriaid
05-Maw.-07	Rheoli Newid: Pobl a Chynnydd
07-Maw.-07	Rheoli Llif Arian
13-Maw.-07	Gwerthuso Gweithwyr a Gosod Amcanion
15-Maw.-07	Gweithio gyda Llythyrau Credyd a Biliau Cyfnewid
16-Maw.-07	Rheoli Amser
21-Maw.-07	Adeiladu ac Arwain Tîm Gwerthu
22-Maw.-07	Sgiliau Cyfathrebu Effeithiol
28-Maw.-07	Strategaeth Cysylltiadau Cyhoeddus, Tactegau a Chyswllt â'r Cyfryngau
28-Maw.-07	Deddfwriaeth Cyflogaeth
29-Maw.-07	Rhwydweithio er mwyn Llwyddo Mewn Busnes
04-Ebrill-07	Sgiliau Dirprwyo
05-Ebrill-07	AD ar gyfer rheolwyr llinell
05-Ebrill-07	Gwaith tîm ac adeiladu tîm
12-Ebrill-07	Sgiliau cyflwyno
13-Ebrill-07	Iechyd a Diogelwch yn y gweithle
17-Ebrill-07	Cyd-drafod er mwyn llwyddo mewn busnes
19-Ebrill-07	Sgiliau Arweinyddiaeth
20-Ebrill-07	Cyllid ar gyfer rheolwyr anariannol
25-Ebrill-07	Datblygu Cyfarwyddwyr
26-Ebrill-07	Rheoli amser
01-Mai-07	Gofal Cwsmeriaid
02-Mai-07	Rheoli Prosiectau
03-Mai-07	Technegau Recriwtio a Dethol
09-Mai-07	Rheoli Llif Arian
10-Mai-07	Codi Perfformiad gan ddefnyddio Technegau Ysgogi ac Arweinyddiaeth
11-Mai-07	Sgiliau Dirprwyo
16-Mai-07	Hyfforddi Staff er mwyn Llwyddo
17-Mai-07	Rheoli Amser
18-Mai-07	Pendantrwydd ar gyfer Rheolwyr
22-Mai-07	Technegau Hyfforddi Uwch
24-Mai-07	Sgiliau Marchnata Hanfodol
24-Mai-07	Arwain ac Adeiladu Tîm
29-Mai-07	Cyllid ar gyfer Rheolwyr Anariannol
30-Mai-07	Rheoli Perfformiad Gweithwyr
31-Mai-07	Rhwydweithio er mwyn Llwyddo mewn Busnes
31-Mai-07	Sgiliau Cyflwyno
12-Meh.-07	Gofal Cwsmeriaid
14-Meh.-07	Gwahaniaethu yn y Gweithle
20-Meh.-07	Datblygiad Cyfarwyddwyr
21-Meh.-07	Sgiliau Cyfathrebu ffeithiol

Gwobrau You Can Do It B&Q

Mae Gwobrau You Can Do It B&Q yn gynllun gwobrau blynyddol sy'n gyfle i grwpiau cymunedol megis clybiau chwaraeon lleol, elusennau, ysgolion, anabledd, amgylchedd a chlybiau ieuenctid ar draws y DU i ymgymryd â phrosiectau a all wneud gwahaniaeth i'r bobl leol. Mae ugain o wobrau gwerth hyd at £5,000 o ddefnyddiau B&Q ar gael ar gyfer prosiectau adnewyddu ac ailwampio. Derbynnir ceisiadau ar gyfer gwobrau 2007 o 29 Ionawr a'r dyddiad cau yw 30 Mawrth 2007. Mae manylion pellach ar gael ar **www.diy.com/awards** ffôn 0845 301 1001.

Tracio CRB ar-lein

Ar 3ydd Ionawr 2007 lansiodd y Biwro Cofnodion Troseddol (CRB) ei wasanaeth ar-lein cyntaf. Am y tro cyntaf gall cwsmeriaid dracio llwybr ffurflen gais ar-lein, o adeg ei derbyn hyd at ei dyroddi.

Bydd y gwasanaeth newydd yn galluogi'r CRB i ddarparu gwasanaeth mwy eglur trwy gydol y broses o wneud cais.

Gall cwsmeriaid gyrchu'r gwasanaeth, yn rhad ac am ddim o wefan y CRB **www.crb.gov.uk/tracking** trwy roi cyfeirif y ffurflen gais ynghyd â dyddiad geni'r ymgeisydd.

Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu'r cwsmeriaid gyda'r wybodaeth ganlynol:

- Ar gyfer Datgeliad Safonol gall cwsmeriaid ganfod beth yw statws y cais ar bedwar cam penodol yn y broses, sef pan fydd y cais wedi'i dderbyn a'i ddilysu, pan fydd Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu wedi'i archwilio, pan fydd gwiriadau POCA, POVA a Rhestr 99 wedi cymryd lle (os yn gymwys) a phan fydd y Datgeliad wedi'i argraffu.
- Ar gyfer Datgeliad Estynedig bydd cwsmeriaid yn cael eu hysbysu ynghylch statws y gwiriadau uchod yn ogystal ag archwiliad o unrhyw gofnodion sydd gan yr heddlu, sef yn yr achos hwn, y cam olaf ond un yn y broses.

Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed

Ar 8 Tachwedd 2006, derbyniodd y Ddeddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed Gydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf hon yn gosod y seiliau ar gyfer cynllun archwilio cefndir a gwahardd newydd, fydd yn cael ei gyflwyno'n raddol o hydref 2008 ymlaen. Cefndir y Ddeddf hon yw ei bod yn ymateb i un o brif argymhellion Ymchwiliad Bichard i greu cynllun cofrestru sy'n atal rhai a ystyrir yn anaddas rhag cael mynediad at blant neu oedolion sy'n agored i niwed trwy gyfrwng eu gwaith. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy sicrhau bod cyflogwyr yn elwa o well gwasanaeth archwilio cefndir rhai sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed, a bod y rhai y gwyddys eu bod yn anaddas yn cael eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed ar y cyfle cyntaf posib.

Am fwy o wybodaeth ar y Ddeddf newydd hon ewch i:

http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060047_en.pdf

neu ewch i Ddigwyddiadau a Seminarau CRU am wybodaeth ar ein Digwyddiadau Polisi diweddar a lawrlwytho'r cyflwyniad sy'n dwyn y teitl Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd.

Disgwylir i'r cynllun hwn fynd yn fyw ar ddydd Llun 29 Medi 2008 a bydd y CRU yn rhoi gwybodaeth lawn i sefydliadau ynghylch unrhyw ddatblygiadau pryd a phan fyddan nhw'n digwydd.

Gleision Caerdydd yn Gweithredu'n Ddwyieithog

Llun o: Ceri Thomas Cymdeithas Chwaraeon Cymru, Nicky Robinson, Robin Sowden-Taylor, Mike Phillips and Rhys Williams Gleision Caerdydd, Rhian Powell o Mentrau Morgannwg Gwent, Siôn Williams athro efo disgyblion Ysgol Gynradd Gymuned Gymraeg Llantrisant.

Ers dechrau'r tymor rygbi newydd y mae newid yng nghynnwys rhaglen Gleision Caerdydd. O ganlyniad i bartneriaeth rhwng y Gleision, Uned Gyfieithu Mentrau Iaith Morgannwg Gwent a Chymdeithas Chwaraeon Cymru y mae tudalen Gymraeg yn ymddangos ym mhob rhifyn.

Dywedodd Gwydion Griffiths, Swyddog Marchnata a'r Wasg Gleision Caerdydd 'Y mae Gleision Caerdydd wedi mwynhau partneriaeth waith wych â Menter Iaith ers i'r cynllun gael ei lansio ar ddechrau'r tymor 2006/07. Y mae'r cyfieithiadau bob tro yn cael eu dychwelyd mewn da bryd ac o'r safon uchaf. Y mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi ein cefnogwyr ledled y rhanbarth i ddarllen am y tîm naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac y mae wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'r cefnogwyr - yn enwedig y rhai ifainc'.

Ychwanegodd Rhian Powell, Cyfieithydd Cymunedol Mentrau Morgannwg Gwent 'Y mae'n dda gweld bod sefydliadau sydd wedi arfer ar weithio'n uniaith Saesneg yn awr yn sylweddoli pa mor fuddiol ydyw i weithio'n ddwyieithog a gobeithiaf y bydd y bartneriaeth hon yn parhau i fynd o nerth i nerth a bydd rhagor o sefydliadau yn yr ardal yn dilyn esiampl Gleision Caerdydd'.

Meddai Ceri Thomas, Cymdeithas Chwaraeon Cymru, 'Mae'r cam cyntaf yma yn dangos pa mor awyddus yw'r Gleision i gyrraedd cymdeithas Gymraeg y rhanbarth, sydd yn cynnwys mwy na 60,000 o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn dilyn rhaglen y Gymdeithas i brif-ffrydio'r Gymraeg i chwaraeon yng Nghymru. Y cam nesaf yw creu'r awyrgylch cywir i ddatblygwyr maes y Gleision ddarparu datblygiad y Gymraeg yn y maes gan ddefnyddio a chydweithredu â gwasanaethau Cymraeg lleol y rhanbarth. Da iawn y Gleision!'

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Ceri Thomas, Swyddog Datblygu'r Gymraeg, 02920649865, ceri.thomas@welshsports.org.uk

Wythnos Addysg Oedolion

Bydd Wythnos Addysg Oedolion sef dathliad a gŵyl fwyaf addysg oedolion o fewn y DU yn digwydd rhwng 19eg - 26ain Mai 2007.

Mae Wythnos Addysg Oedolion, ymgyrch sy'n cyfuno hyrwyddo cenedlaethol a gweithredu lleol, yn cael ei chydlynu gan NIACE Dysgu Cymru ac yn derbyn nawdd craidd gan ELWa, a'r Gronfa Ewropeaidd. Mae'n rhoi cyfle i oedolion i roi cynnig ar ddysgu rhywbeth newydd trwy brofi un o'r cannoedd o sesiynau blasu sy'n digwydd ar draws Cymru yn ystod yr wythnos. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddarparwyr addysg i arddangos eu darpariaeth. Os ydych chi'n darparu addysg i oedolion byddwch am wneud y gorau o ymgyrch Wythnos Addysg Oedolion, trwy drefnu eich digwyddiadau arbennig eich hun.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n noddi gwobr 'Dysgwr y Flwyddyn' er mwyn cydnabod unigolion sydd wedi gwella eu sgiliau trwy gyfrwng addysg chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Rydym am gael enwebiadau ar gyfer gwobr Ysbrydoli Addysg Oedolion. Am fwy o wybodaeth am Wythnos Addysg Oedolion, Gwobrau a Grantiau ewch i **www.alweek.org**

Newidiadau i Gyfraith Cwmnïau

O'r 1af Ionawr 2007 ymlaen, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i fusnesau sy'n aelodau o gymdeithas fasnachol neu broffesiynol i gynnwys gwybodaeth benodol ar eu gwefannau ac ar waelod eu negeseuon e-bost.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith, sy'n gweithredu gofynion y Rheoliadau Masnachu Electronig (Cyfarwyddeb CE) 2002, bod lleiafswm o wybodaeth yn cael ei ddarparu ar unrhyw safle busnes gan gynnwys enw'r busnes, cyfeiriad daearyddol a chyfeiriad e-bost yn ogystal ag enw cyfreithiol y sefydliad sy'n llunio'r cytundeb gyda'r cwsmer. Yn ogystal, os ydy'r busnes yn gwmni, rhaid cynnwys cyfeiriad y swyddfa gofrestredig a'r rhif cofrestru. Os ydy'r busnes yn aelod o gymdeithas fasnachol neu broffesiynol, rhaid cynnwys manylion aelodaeth yn ogystal â rhif cofrestru. Os ydy'r busnes yn TAW gofrestredig, dylid nodi'r rhif yn glir hyd yn oed os nad yw'r wefan yn cael ei defnyddio at bwrpas e-fasnach. Gall methu â chydymffurfio â'r rheoliadau newydd hyn olygu bod busnes yn torri amodau'r Ddeddf Cwmnïau a gallai orfod talu dirwy o ganlyniad i hynny. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar **www.out-law.com**.

Gwasanaeth Arwyddiaith ar gael ar gyfer Darpar Hyfforddwyr Pêl-droed Byddar neu Rhannol Fyddar

Mae Gwasanaeth Arwyddiaith Brydeinig newydd ar gael fydd yn galluogi darpar hyfforddwyr pêl-droed byddar neu rhannol fyddar i gyrchu Addysg Hyfforddwyr.

Mae cyfleoedd i blant ac oedolion gydag anabledd i chwarae pêl-droed yng Nghymru'n cynyddu'n gyflym. Mae clybiau anabledd cyffredinol ac anabledd penodol yn datblygu ar draws Cymru sy'n cynnig cyfleoedd i unigolion chwarae, waeth beth yw lefel eu gallu neu eu cyflwr corfforol, synhwyraidd neu ddeallusol.

Mae Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu strwythur sylfaenol sy'n darparu cyfleoedd i chwarae a chystadlu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Ochr yn ochr â hyn ceir datblygiad addysg hyfforddwyr anabledd penodol ar gyfer hyfforddi hyfforddwyr a gwirfoddolwyr, gyda'r bwriad yn y pen draw o ddarparu cyfleoedd i chwaraewyr gystadlu ar lefel genedlaethol.

Fel rhan o ymroddiad Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru gyda golwg ar ddarparu mynediad cyfartal i bêl-droed, bydd y gwasanaeth Arwyddiaith Brydeinig ar gael ar ddyddiadau penodol ar gyfer yr holl gyrsiau addysg hyfforddwyr Lefel 1 gan gynnwys y Wobr Arweinwyr Pêl-droed. Mae'r Wobr Arweinwyr yn gwrs 15 awr, sy'n orfodol ar gyfer unrhyw ddarpar hyfforddwr sydd am weithio gyda chwaraewyr ifanc. Mae'r Wobr Arweinwyr yn darparu cyflwyniad i drefnu ymarferion pêl-droed mewn amgylchedd diogel a hwyliog gyda'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau.

Mae Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru'n gobeithio y bydd hyfforddi mwy o hyfforddwyr byddar neu rhannol fyddar yn arwain at ddatblygu mwy o gyfleoedd pêl-droed penodol ar gyfer y byddar ac yn darparu chwaraewyr ifanc gyda phatrymau ymddwyn positif. Mae'r fenter hon wedi derbyn cefnogaeth gan gynllun Sportsmatch Cymru, sy'n darparu nawdd cyfatebol er mwyn rhoi cefnogaeth fasnachol i fentrau datblygiad sylfaenol.

Bydd gwasanaeth Arwyddiaith Brydeinig ar gael ar y cyrsiau canlynol trwy gydol ail hanner tymor 2006/2007

- Gwobr Arweinwyr Pêl-droed – dydd Sul 18fed a'r 25ain Chwefror (9-5pm) – Caeau Chwarae Llanrhymni, Caerdydd – cost £40.

Proffil Prif Weithredwr

Enw Sue Holvey

CLIC Pêl-rwyd Cymru

Swydd Prif Weithredwr

Hobïau/diddordebau

Un o fy hoff ddiddordebau yw coginio. Rwy'n mwynhau rhoi cynnig ar greu seigiau newydd ar gyfer fy nheulu a ffrindiau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf hefyd wedi dechrau dawnsio (Ballroom) gyda fy NGWR a chwpwl arall sy'n ffrindiau inni. Dydw i ddim yn arbennig o dda ond mae'n ymarfer gwych ac yn llawer o hwyl - ry'n ni'n chwerthin trwy'r nos!

Llwybr gyrfaol tuag at y swydd bresennol

- Gradd mewn Maeth ym Mhrifysgol Llundain yn 1979.
- Cymdeithas Adeiladu Nationwide 1979 - cynllun hyfforddi rheolwyr ar gyfer graddedigion. Cael fy nghyflogi i ddechrau fel Rheolwraig Dan Hyfforddiant, yna Rheolwraig Gynorthwyol ac yna Rheolwraig y Gangen.
- Graddio fel Cydymaith (1982) yna cael fy ethol yn Gymrawd Sefydliad Siartredig y Bancwyr (2987), (FCIB)
- Fel Rheolwraig y Gangen roeddwn yn gyfrifol am redeg y swyddfa, gosod targedau a chyflwyno adroddiadau yn ogystal â rheoli a gwerthuso'r staff. Gweithiais gyda Nationwide am 10 mlynedd, yna cymryd egwyl o fy ngyrfa yn 1990.
- Dechreuais weithio gyda Phêl-rwyd Cymru yn Ebrill 1997.

Prif sialensiau sy'n wynebu eich sefydliad

Fel gyda holl Gyrff Llywodraethol Cenedlaethol chwaraeon yng Nghymru, dod o hyd i ffynonellau incwm yw'r brif sialens. Mae yna gyfleoedd ardderchog a syniadau newydd gwych yn dod i'r fei trwy'r adeg ond rhaid inni ddewis a dethol yn ofalus er mwyn defnyddio'r arian sydd gennym yn ddoeth a sicrhau'r budd mwyaf ohono, ar lefel sylfaenol ac elitaidd.

Pethau ry'ch chi'n mwynhau fwyaf am eich swydd

Gweithio gyda chynifer o wahanol fathau o bobl – chwaraewyr pêl-rwyd (yng Nghymru a gweddill y byd), staff a gwirfoddolwyr Cyrff Llywodraethol chwaraeon eraill, Cymdeithas Chwaraeon Cymru, UK Sport, awdurdodau lleol, y wasg a'r cyfryngau, gwleidyddion. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd felly mae'n gwneud y swydd yn amrywiol a diddorol iawn.

Pethau nad ydych chi'n mwynhau am eich swydd

Methu â chwrdd â gofynion clybiau ac ysgolion a gorfod esbonio i aelodau mai sefydliad bach ydym ni gydag adnoddau cyfyngedig sy'n cael eu taenu'n rhy denau y rhan fwyaf o'r amser.

Petaech chi'n cael un dymuniad ar gyfer eich sefydliad, beth fyddai hwnnw?

Canolfan pêl-rwyd (gyda gofod swyddfa) , yna fyddai dim angen inni chwilio trwy'r adeg am gyfleusterau a chystadlu gyda chwaraeon eraill ar gyfer gofod o fewn Sefydliadau Chwaraeon Cymru.

Pa dri gair sy'n disgrifio chi orau?

Mae amyneddgar, rhesymegol a phwyllog wedi'u defnyddio cyn hyn (ond mae'n debyg mai amlochrog fyddai'r disgrifiad gorau).

Person ifanc o'ch chwaraeon chi i gadw llygad amdani/amdano yn y dyfodol

Emma Thomas, merch 15 oed sydd ar hyn o bryd yn ddisgybl yn Ysgol Corpus Christie. Mae hi newydd ddechrau chwarae pêl-rwyd hyn gyda chlwb Dinas ac mae hi wedi'i dewis fel y chwaraewr ieuengaf yn ein sgwad Rheng 4.

Cyngor gorau a gawsoch erioed

Paid â chymryd yr ail orau yn unrhyw beth. Aros dy gyfle a cher am yr hyn rwyt ti eisiau go iawn.

Proffil Prif Weithredwr

Enw Debbie Wharton

CLIC Seiclo Cymru

Swydd Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Hobïau/diddordebau

Does dim llawer o amser ar gyfer diddordebau gyda theulu ifanc! Ond rwy'n mwynhau treulio fy amser sbâr yn chwarae pêl-droed yn y parc, nofio, ymweld â ffrindiau a seiclo gyda fy nheulu. Rwyf hefyd yn mwynhau dysgu siarad Cymraeg.

Llwybr gyrfaol at y swydd bresennol

- Cynrychiolais Gymru a Phrydain, a chystadlu ym Mhencampwriaethau Trac Adran Iau'r Byd yn 17 oed.
- Sefydlais Dîm Seiclo Ieuenctid Maindy Flyers, sef y clwb ieuenctid mwyaf llwyddiannus ym Mhrydain a ddatblygodd rhai o seiclwyr gorau Prydain heddiw gan gynnwys Geraint Thomas a Ross Sander.
- Hyfforddwr y Flwyddyn gyda Cyngor Chwaraeon Cymru.
- Rheolwr Talent Rhanbarthol gyda Thîm Talent Seiclo Prydain, 2001 - 2003.
- Datblygais adnoddau hyfforddi 'Go-Ride' y sefydliad cyn cael secondiad i Seiclo Cymru er mwyn sicrhau bod seiclwyr o Gymru'n dilyn rhaglenni Talent Seiclo Prydain a Datblygiad Olympaidd.

Prif sialensiau sy'n wynebu eich sefydliad

Mae'n anodd ceisio annog mwy o blant i ddechrau seiclo oherwydd y nifer cynyddol o geir sydd ar ein ffyrdd a pheryglon honedig seiclo. Mae gennym rai cyfleusterau da ond os ydym ni am annog mwy o bobl ifanc i seiclo yna mae angen mwy o amgylcheddau diogel o fewn cyfleusterau penodol er mwyn caniatáu i hynny ddigwydd.

Pethau ry'ch chi'n mwynhau fwyaf am eich swydd

Gweld seiclwyr ifanc yn datblygu yn y gamp ac yn mynd ymlaen i ennill medalau'r Gymanwlad a'r Byd.

Pethau nad ydych chi'n mwynhau am eich swydd

Newydd ddechrau ar y swydd ydw i, felly gofynnwch eto mewn cwpwl o fisoedd!

Petaech chi'n cael un dymuniad ar gyfer eich sefydliad, beth fyddai hwnnw?

Buom yn ffodus i gael gwirfoddolwyr ardderchog ym maes seiclo sydd wedi helpu i ddatblygu'r gamp o fewn ein cyfleusterau. Byddai mwy o wirfoddolwyr gwych mewn cyfleusterau newydd o fudd mawr i'r gamp.

Pa dri gair sy'n eich disgrifio orau?

Ymroddgar, trefnus, hapus.

Person ifanc o'ch chwaraeon chi i gadw llygad amdano/amdani yn y dyfodol.

Mae yna nifer o ferched ifanc da yn dod trwyddo ar hyn o bryd, pobl fel Hannah Rich, Rebecca James ac Alex Greenfield. Rwy'n meddwl eu bod wedi'u hysbrydoli gan Nicole Cooke ond bydd yn rhaid iddi hi gadw golwg ar y rhain yn y dyfodol!

Cyngor gorau a gawsoch erioed

Os ddali di i wneud beth rwyt ti wastad wedi gwneud, byddi'n dal i gael beth rwyt ti wastad wedi'i gael.

Cynllun Ffôn WCVA ar gyfer Aelodau Cymdeithas Chwaraeon Cymru

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru wedi sichrau cytundeb sy'n golygu bod ei chyrff llywodraethol cenedlaethol yn medru cyrchu Cynllun Ffôn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) trwy gyfrwng aelodaeth o'r Gymdeithas. Mae'r Cynllun Ffôn yn cynnwys archwiliad am ddim er mwyn sefydlu effeithiolrwydd telathrebu presennol ac yn cynnig gostyngiad ar brisiau llinellau a systemau ffôn, ffonau symudol a phecynnau Band Llydan.

Mae'r cynllun yn darparu'r aelodau a'r sector gydag amrywiaeth cynyddol o wasanaethau telathrebu a dulliau o arbed arian. Mae rhai o'r buddiannau sy'n deillio o'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir gan y WCVA yn cynnwys:

- Arbedion sylweddol ar gostau galwadau ffôn a rhentu llinellau
- Gwasanaeth cyflawn rheoledig ar gyfer cyflenwi a gosod systemau ffôn newydd
- Pecyn ffôn symudol sy'n cynnwys setiau llaw am ddim, taliadau llog isel bob mis a galwadau am bris gostyngol arbennig.
- Dewis o becynnau Band Llydan cyflymder uchel sydd wedi'u cysylltu'n barhaus â'r Rhyngrwyd am bris sefydlog bob mis.
- Rhifau arbennig gan gynnwys 0800 Rhadffôn, 0845 Pris Galwadau Lleol ac 0870 Pris Galwadau Cenedlaethol er mwyn gwella a rheoli dulliau o ddelio gyda galwadau sy'n dod mewn.

Gellir ymuno â'r cynllun am ddim, ac mae'n gwneud yr holl waith caled ar eich rhan. Mae'n cydnabod nad oes gennych yr amser na'r adnoddau o bosib i sicrhau eich bod yn cael y ddarpariaeth telathrebu orau yn nhermau costau a chyflenwr. O ganlyniad, efallai eich bod yn talu mwy nag sydd angen, ac yn colli allan ar ddatblygiadau telathrebu newydd a all wella'r ffordd rydych chi'n gweithio.

Os hoffech chi elwa o Gynllun Ffôn y WCVA, gallant drefnu arolwg telathrebu a dadansoddiad o'ch biliau am ddim er mwyn dangos faint allwch chi arbed.

Ewch i **www.classtelecom.co.uk** neu galwch 0800 652 6301 yn rhad ac am ddim.

Caiff y cylchlythyr yma ei gyhoeddi gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru, Ystafelloedd Pontcanna, Sefydliad Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9SW. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu erthyglau ar gyfer cael eu cyhoeddi yn y dyfodol at y golygydd yn y cyfeiriad uchod neu at greta.gueresi-leach@welshsports.org.uk.

Er mai cyhoeddiad swyddogol Cymdeithas Chwaraeon Cymru yw hwn, nid yw'r syniadau a'r farnau yn y cylchlythyr hwn o reidrwydd y rhai hynny a rannir gan Cym.ChC.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi hysbyseb neu noddi cylchlythyr Cym.ChC gysylltu â Kieran Harris ar 029 2064 9863 neu drwy e-bost Kieran.harris@welshsports.org.uk

Dyluniwyd gan
The Info Group, The Village Studio,
Heol-y-Coed, Rhiwbeina, Caerdydd CF14 6HP

wsa:
serving welsh sport
gwasanaethu chwaraeon cymru